**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy) 2012**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Sgiliau ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy) 2012.

Leighton Andrews AC

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

7 Mawrth 2012

## Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy 2012 yn gwneud darpariaeth ynghylch uniondeb Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”) a Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg (“y Dirprwy Gomisiynydd”).

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a deddfwriaethol

2. Dim.

## Y cefndir

3. Mae adrannau 134 i 139 o Bennod 1 o Ran 8 o Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth ynghylch uniondeb Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”) a Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg (“y Dirprwy Gomisiynydd”).

4. O dan adran 134, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ac i'r Dirprwy Gomisiynydd (a ddiffinnir yn Rhan 8 o'r Mesur fel "deiliaid swydd perthnasol" greu a chynnal cofrestr buddiannau.

5. Rhaid i gofrestr buddiannau gynnwys yr holl fuddiannau cofrestradwy sydd gan ddeiliad swydd perthnasol. Mae adrannau 135 i 137 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch cyhoeddi cofrestrau buddiannau; gwrthdrawiadau buddiannau; a dilysrwydd gweithredoedd deiliad swydd perthnasol.

6. Mae adran 138 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion Pennod 1 o Ran 8 o'r Mesur.

7. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn gan ddibynnu ar y pŵer a ddarperir gan adran 138 o'r Mesur. Mae Rheoliad 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau sy'n pennu buddiannau cofrestradwy deiliaid swydd perthnasol.

8. Fel y pennir yn adran 150(3) o'r Mesur, yr weithdrefn penderfyniad negyddol a ddefnyddir ar gyfer y rheoliadau hyn.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

<u>Amcanion Polisi</u>

9. Mae cofrestr buddiannau hygyrch yn rhan sylfaenol o'r bennod sy'n dwyn y teitl 'Uniondeb' ym Mhennod 1 o Ran 8 o'r Mesur. Diben y rheoliadau hyn yw helpu i sicrhau bod y Comisiynydd yn wrthrychol wrth ymgymryd â'i

ddyletswyddau. Mae Pennod 1 o Ran 8 o'r Mesur yn mynd i'r afael â gwrthdrawiadau buddiannau a allai godi wrth i'r Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd arfer eu swyddogaethau.

10. Bydd gan y Comisiynydd bwerau rheoleiddiol i osod dyletswyddau ar bersonau neu gategorïau o bersonau a ddisgrifir yn Atodlenni 6 ac 8 i'r Mesur mewn perthynas â chydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn gallu ymchwilio i honiadau ynghylch methiant i gydymffurfio â'r safonau a bydd ganddo ystod o bwerau i gymryd camau gorfodi os bydd methiant i gydymffurfio â hwy; ymhlith y dewisiadau gorfodi posibl hyn y mae ei gwneud yn ofynnol i rywun baratoi cynllun gweithredu neu roi cosb sifil iddo. O ystyried y pwerau hyn, bernir ei bod yn bwysig nad oes unrhyw ganfyddiad bod unrhyw unigolyn a fydd yn ysgwyddo rôl y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd yn rhagfarnllyd mewn unrhyw ffordd, a bernir hefyd ei bod yn bwysig nad yw'n caniatáu i fuddiannau personol ddylanwadu ar y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol.

11. Mae gwneud y Rheoliadau hyn, felly, yn gwbl gyson â'r awydd i'r Comisiynydd a'i Ddirprwy weithredu mewn ffordd dryloyw, atebol a diduedd, a byddant yn helpu i sicrhau bod y Comisiynydd a'i Ddirprwy yn cadw at y safonau uchaf o briodoldeb wrth reoli eu busnes. Mae'r egwyddor gonestrwydd yn safonau Nolan yn datgan, yn benodol, fod "dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy’n berthnasol i’w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi, gan wneud hynny mewn modd sy’n diogelu buddiannau cyhoeddus".

12. O dan amgylchiadau lle y mae gan y Comisiynydd fuddiant cofrestradwy sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaeth, bydd y Mesur yn atal y Comisiynydd rhag arfer y swyddogaeth honno. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r swyddogaeth o dan sylw gael ei harfer gan y Dirprwy Gomisiynydd, neu gan aelod arall o staff y Comisiynydd. Lle y byddo'r Dirprwy Gomisiynydd yn cael ei atal rhag arfer swyddogaeth oherwydd gwrthdaro buddiannau, rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau i'r swyddogaeth gael ei harfer gan rywun heblaw'r Dirprwy Gomisiynydd.

<u>Effaith</u>

13. Mae Rheoliad 2 yn darparu bod buddiannau a restrir yn yr Atodlen i’r Rheoliadau yn fuddiannau cofrestradwy at ddibenion Pennod 1 o Rhan 8 o Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

14. Yn Rhan 1 o'r Atodlen, rhestrir termau diffiniedig a ddefnyddir yn Rhan 2, sef y rhan o'r Atodlen sy'n pennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy.

15. Bwriad buddiannau (a) i (d) yw sicrhau ei bod yn ofynnol i'r Comisiynydd ac i'r Dirprwy Gomisiynydd ddatgan yn gyhoeddus amgylchiadau lle y mae

ganddynt hwy, neu lle y mae gan bartner neu blentyn (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau) y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd, fuddiannau na ddylai deiliad swydd perthnasol arfer swyddogaeth mewn perthynas â hwy. Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol gofrestru buddiant o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir isod.

16. O dan amgylchiadau lle y mae partner neu blentyn (fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau) deiliad swydd perthnasol yn dal swydd gydag unrhyw berson a restrir yn Atodlen 6 neu 8 i'r Mesur, neu lle y mae'n cael ei gyflogi gan y cyfryw berson, bydd yn rhaid cofrestru'r buddiant hwnnw. Gall y personau a restrir yn y naill neu'r llall o'r ddwy Atodlen hyn ddod yn ddarostyngedig i'r safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn unol â'r Mesur, yn ogystal â dod yn ddarostyngedig i'r ystod o bwerau gorfodi sydd ar gael i'r Comisiynydd. Pe byddai gwrthdaro o'r math hwn, mae Llywodraeth Cymru yn teimlo na fyddai'n briodol i'r deiliad swydd perthnasol o dan sylw arfer y swyddogaethau rheoleiddiol perthnasol.

17. Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol hefyd gofrestru buddiant os oes ganddo nhw, neu bartner neu blentyn (fel y'u diffinnir) fuddiant mewn tir neu eiddo deallusol, y mae gan swyddfa'r Comisiynydd (o'i gyferbynnu â'r Comisiynydd fel person preifat) fudd ynddo. Er enghraifft, mewn sefyllfa lle y byddai partner y Comisiynydd yn berchen ar dir a fyddai'n cael ei rentu gan swyddfa'r Comisiynydd, byddai'r person a fyddai'n gweithredu fel Comisiynydd yn cael ei atal rhag arfer unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r Comisiynydd mewn perthynas â'r tir hwnnw.

18. Mae'r buddiannau cofrestradwy eraill yn ymwneud â'r buddiannau cofrestradwy sydd gan ddeiliaid swyddi perthnasol neu gan eu partneriaid a/neu eu plant. Bydd yn rhaid i ddeiliad swydd perthnasol gofrestru enwau cwmnïau neu gyrff eraill lle y mae ganddo fuddiant llesiannol mewn cyfrannau. Rhaid cofrestru'r buddiant hwnnw ni waeth a yw'n fuddiant y mae'n ei ddal ar ei ben ei hun, neu'n fuddiant sy'n cael ei ddal ar y cyd â phartner a/neu blentyn, neu ar eu rhan. Yn ogystal â buddiannau mewn cyfrannau, rhaid i ddeiliad swydd perthnasol gofrestru unrhyw swyddi cyfarwyddwyr y mae'r deiliad swydd perthnasol hwnnw yn eu dal mewn unrhyw gwmni.

19. Yn ogystal â'r ystod eang o bersonau a restrir yn Atodlenni 6 ac 8, y gellid ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau, gallai arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Mesur olygu bod deiliaid swyddi perthnasol yn dod i gysylltiad â chwmnïau preifat a chyrff eraill mewn sefyllfaoedd lle nad oes safonau'n gymwys. Er enghraifft, bydd gan y Comisiynydd y pŵer i ymchwilio i honiadau ynghylch ymyrryd â rhyddid unigolion i siarad Cymraeg gyda'i gilydd yng Nghymru, ac i baratoi adroddiadau am y cyfryw honiadau, neu i ddwyn achosion cyfreithiol neu i ymyrryd ynddynt. O'r herwydd, mae'r buddiannau hyn sy'n ymwneud â chyfrannau a swyddi cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys yn y rheoliadau er mwyn sicrhau tryloywder ac uniondeb.

## Ymgynghori

20. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am yr egwyddorion polisi nac am y rheoliadau, a hynny oherwydd na fyddant yn cael effaith uniongyrchol ar y sector cyhoeddus, y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

21. Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol oherwydd na fydd y rheoliadau'n cael effaith berthnasol ar fusnesau, nac ar y sector gwirfoddol, na llywodraeth leol nac eraill.

22. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol (adrannau 77 -79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) nac ar bartneriaid statudol (adrannau 72-75 o'r Ddeddf honno).